# Paciwch Becyn Llifogydd

RHONDDA CYNON TAF

**Mae paratoi pecyn llifogydd o eitemau hanfodol yn ffordd allweddol o leihau’r risgiau ac effeithiau o llifogydd, os byddwch chi'n dewis aros yn eich cartref neu’n cael eich symud i ganolfan orffwys.**

**Trafodwch fel aelwyd beth hoffech chi ei bacio mewn pecyn llifogydd. Mae awgrymiadau isod ac mae modd i chi ychwanegu unrhyw beth ychwanegol sydd ei angen arnoch chi.**

| | |
|---|---|
| ☐ | Copi o'ch cynllun llifogydd |
| ☐ | Copïau o'ch dogfennau yswiriant cartref a'ch yswiriant cerbyd |
| ☐ | Gwefrydd ffôn a phecyn batri cludadwy |
| ☐ | Tortsh gyda batris sbâr; mae cael tortsh weindio wrth gefn yn syniad da |
| ☐ | Radio – ar eich ffôn neu un sy'n defnyddio batri |
| ☐ | Bwyd babanod ac eitemau gofal babanod |
| ☐ | Pecyn cymorth cyntaf a meddyginiaeth ar bresgripsiwn |
| ☐ | Dŵr potel (gwiriwch y dyddiad defnyddio erbyn) a bwyd sydd ddim yn ddarfodus |
| ☐ | Dillad a blancedi cynnes, gwrth-ddŵr |
| ☐ | Menig rwber ac esgidiau glaw |
| ☐ | Mygydau a hylif diheintio dwylo |
| ☐ | Cyflenwadau anifeiliaid anwes |
| ☐ | Rhifau ffôn pwysig gan gynnwys y Llinell Rybuddion Llifogydd, llinell gymorth brys eich awdurdod lleol, rhif cwmni yswiriant 24 awr, gwasanaethau brys, teulu a chymdogion, rhifau ffôn gwaith, meddygfa, cyflenwr nwy/trydan/dŵr, amled gorsafoedd radio lleol. |
| ☐ | Arian parod brys a chardiau credyd |
| ☐ | Camera i gofnodi difrod at ddibenion yswiriant (camerâu digidol sydd orau) |
| ☐ | Blancedi, carthenni, dillad cynnes |
| ☐ | Paciwch allwedd sbâr ar gyfer eich eiddo rhag ofn |
| ☐ | |
| ☐ | |
| ☐ | |
| ☐ | |

**Cadwch ef wrth law rhag ofn i chi gael eich symud mewn argyfwng a gwnewch yn siŵr bod pobl yn gwybod ble i ddod o hyd iddo a beth i'w wneud os bydd llifogydd yn digwydd.**